



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Gogledd

Gobeithio bod pawb ohonoch yn cadw cystal â phosibl dan yr amgylchiadau. Rydym wedi dweud hyn amryw o weithiau, ond mae'r cyfnod hwn yn un digynsail.

Rydym bellach mewn cyfnod clo arall ble bydd y mwyafrif o ddysgwyr, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dysgu gartref yn hytrach nag yn yr ysgol. Mae pawb ohonom yn ymwybodol bod darparu cynnig o safon uchel i bob dysgwr yn dod â'i heriau gwahanol i chi yn y rhanbarth. Ar wahanol adegau yn ystod eich wythnos waith, bydd rhai o'r heriau hyn yn eich wynebu, os nad y cwbl ohonynt:

- band llydan;
- argaeledd digidol;
- ymgysylltiad dysgwyr;
- argaeledd staff.



Mae'n teimlo fel petai amryw o gyrff cenedlaethol yn holi cwestiynau heriol o ddydd i ddydd, ac yn gwneud tybiaethau am ansawdd y ddarpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell. Ar ben hynny, mae rhai rhieni yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu barn personol sydd, mewn rhai achosion, yn digalonni ysgolion a staff ar hyn o bryd. Er hynny, braf yw clywed Penaethiaid yn dweud eu bod nhw'n cael negeseuon calonogol gan eu rhieni am eu darpariaeth.

Credwn yn gryf fod ein hysgolion yn gwneud eu gorau glas dan yr amgylchiadau anodd hyn, ac un o'n tasgau ni y tymor hwn yw helpu ysgolion i ddangos ansawdd ac effaith y gwaith a wneir i'w cymuned a'r cyhoedd ehangach. Mae hyn yr un mor berthnasol i'n rôl a'n gwaith ni gydag ysgolion. Cawn ein herio yn aml am effaith ein gwaith yn ystod y pandemig hwn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi gyd unwaith eto y tymor hwn, i weld beth sydd yn llwyddo'n dda ac ym mha feysydd y gallwn ni fod o gymorth i wella eich darpariaeth i ddysgwyr ymhellach.

Os oes gennych awgrymiadau neu syniadau am ddulliau gweithredu y gallwn eu mabwysiadu, mae croeso i chi eu rhannu fel y gallwn ni eu cynnwys wrth gynllunio.

Dymuniadau gorau am weddill y tymor, tymor a fydd yn sicr yn un heriol iawn.

Cymerwch ofal

[Plant yn 'diolch' i staff ysgolion am eu cadw nhw'n ddiogel mewn fideo twymgalon - Wales Online](#)

[Seren deledu yn canmol ysgolion Cymru am helpu plant i gysylltu â'r amgylchedd yn ystod y pandemig - Wales Online](#)

[Sut mae staff ysgolion wedi mentro'u bywyd er mwyn i weithwyr gofal iechyd gyflawni eu dyletswyddau - Wales Online](#)

[Yr awdur James Hook, cyn-seren rygbi, yn canmol ysgolion am eu gwaith gwych yn ystod yr argyfwng iechyd - Wales Online](#)

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

IONAWR 2021	DYDDIAD	CYFRWNG
ANG - CA2, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Cymraeg)	21/01/2021	Cymraeg
ANG - Cyfnod Sylfaen, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	21/01/2021	Cymraeg
ANG - CA2, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	22/01/2021	Cymraeg
ANG - Cyfnod Sylfaen, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	22/01/2021	Cymraeg
Rhestr Wirio Sylwadau	22/01/2021	Saesneg
Uwchradd: Paratoi ar gyfer arholiad Siarad TGAU 2021	25/01/2021	Saesneg
Datblygu Deiliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 4 - Sesiwn 1)	26/01/2021	Dwyieithog
Rheoli Newid CiG (Creuddyn, D. Conwy, Glan Clwyd)	26/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid, CiG (Eirias, Aberconwy, Bryn Elan)	26/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Alun, Hawarden, Flint, Pen Coch, Maes Hyfryd)	26/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Friars / Tryfan, Brynrefail, D. Ogwen)	26/01/2021	Cymraeg
ANG - CA2, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	26/01/2021	Saesneg
ANG - CA3/4, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	27/01/2021	Saesneg
ANG - CA3/4, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Cymraeg)	27/01/2021	Cymraeg
Llythrennedd yn y Cwricwlwm i Gymru newydd	27/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Rhyl, Prestatyn, Tir Morfa)	27/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Caergybi, Bodedern, Syr Thomas Jones)	27/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Bryn Alun, Clywedog, Rhosnesni)	27/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Emrys, John Bright, Dinbych, Plas Brondyffryn)	27/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Syr Hugh Owen, Dyffryn Nantlle)	27/01/2021	Cymraeg
ANG – CA2 Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG	27/01/2021	Saesneg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd Tymhorol	28/01/2021	Saesneg
ANG - CA3/4, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Cymraeg)	28/01/2021	Cymraeg
ANG - CA3/4, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	28/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Tywyn, Bro Idris, Moelwyn, Berwyn, Arduwy)	28/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Glan y Mor, Botwnnog, Eifionydd, Hafod Lon)	28/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (St David's, Treffynnon, St Richard Gwyn)	28/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Brynhyfryd, Dinas Bran, Ceiriog)	28/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Castell Alun, Cei Connah, Elfed / Argoed)	28/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Ruabon, Grango, Darland)	28/01/2021	Saesneg

Diweddariad: Gweithdai Taith Ddiwygio Rheoli Newid a Gweledigaeth

Yn dilyn datblygiadau diweddar gyda COVID 19 mae'r gweithdai Rheoli Newid a Gweledigaeth bellach am gychwyn **wythnos yn hwyrach** i mewn i'r tymor.

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru, fydd dim angen i chi wneud hynny eto, a byddwch yn derbyn diweddariad ar gyfer eich calendr. I'r rhai hynny ohonoch nad ydych wedi cofrestru, gwnewch hynny ar **G6**. Gweithdai yw'r rhain ar gyfer **Penaethiaid** ac aelodau o'r **UDRh**. Mae'r dyddiadau newydd uchod (mewn coch).

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Gweithdy ar-lein: Mathemateg CA3 — Addysgu Dosbarthiadau Gallu Cymysg

Dydd Iau 4 Chwefror 2021 15:30 – 16:30

Mae'r gweithdy ar-lein hwn AM DDIM ac yn addas i athrawon Mathemateg CA3.

Bydd y gweithdy yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth ac arweiniad ar ddysgu Mathemateg i ddosbarthiadau gallu cymysg. Rhennir 'arferion da' yn y gweithdy hefyd, a bydd cyflwyniadau gan ddau ymarferydd Mathemateg yn rhanbarth GwE:

Mr David Hogg, Pennaeth Mathemateg, Ysgol Maes Garmon

Mr Daniel Sykes, Cyfarwyddwr Dysgu Mathemateg, Ysgol Elfed

I gofrestru ar gyfer y gweithdy, cwblhewch ffurflen gofrestru **erbyn 22/1/21** ar y ddolen hon: [Ffurflen Archebu](#)

Gweithdy Digidol Iaith Gymraeg



Dyma wahoddiad i weithdy digidol 'Be sy'n bosib?' bawn Llun, 25 Ionawr (Diwrnod Santes Dwynwen) sef y cyntaf mewn cyfres o weithdai wythnosol y tymor hwn sy'n cynnig hyfforddiant penodol ar gyfres o apiau i'ch cynorthwyo wrth addysgu ar-lein. Bydd y gweithdai yn canolbwyntio ar un ap ar y tro gan ddechrau gydag ap Jamboard, sy'n un o apiau Google for Education, ond fe fyddwn yn ystod y gweithdy yn cyfeirio at nifer o apiau rhyngweithiol eraill y gellid eu defnyddio ar lwyfan Microsoft Teams yn ogystal.

25/01/21 - Google Jamboard ac apiau rhyngweithiol

01/02/21 - Google Sites a chasglu tystiolaeth

08/02/21 - Google / Microsoft Forms ac asesu

22/02/21 - Google Slides - mwy na chyflwyno!

01/03/21 - Google Docs - mwy na geiriau!

Hyd pob gweithdy fydd 45 munud gyda 15 munud i drafod a holi cwestiynau.

Cofrestrwch yma: <https://bit.ly/2KqRo6K>



Dyfodol Byd-eang GwE – ITM



Uwchradd: Paratoi ar gyfer arholiad Siarad TGAU 2021

Dydd Llun 25 Ionawr 4pm-5pm | Cofrestru ar G6.

Cyflwyniad ar strategaethau ac adnoddau effeithiol i hwyluso paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiad Siarad ITM TGAU 2021. Bydd y sesiwn yn seiliedig ar yr addasiadau diweddar i'r asesiad. Byddwn yn rhannu adnoddau ymarferol i ddatblygu iaith a sgiliau hanfodol, gan gynnwys adalw patrymau craidd ac amserau'r ferf, ar gyfer elfennau chwarae rôl a siarad Uned 1. Bydd cyfle hefyd i drafod a rhannu arferion da.

Adnoddau Cynradd:

Mae'r ffurflen ar-lein ar gael eto i athrawon sydd yn dymuno defnyddio unrhyw rai o adnoddau Power Language Schools ar gyfer dysgu gartref.

Dyma'r ddolen i'r ffurflen isod, ac mae'n rhaid bod athrawon wedi mewngofnodi ar wefan PLS cyn y gallant agor y ffurflen

<https://powerlanguage.school/video-resources-request-private/>

Unwaith y bydd y ffurflen wedi cyrraedd, caiff yr adnoddau y gofynnwyd amdanynt eu datgloi a'u hanfon ar e-bost at yr athro/athrawes gyda'r cyswllt at yr adnodd(au). Yna gall yr athro/athrawes rannu'r cyswllt hwn i ddisgyblion fynd yn syth at yr adnodd o'u cartref.

Cynllun Llysgenhadon Iaith Rhithwir Llwybrau at leithoedd Cymru: Wrth glicio ar y ddolen hon fel welwch lyfryn gwybodaeth sy'n amlinellu sut fydd y cynllun PLA rhithwir yn gweithredu eleni: <https://bit.ly/3gEURub>

Mae taflen wybodaeth hefyd ar gael, i'w rhannu ymhlith eich disgyblion er mwyn ennyn diddordeb yn y rôl ac i'ch galluogi i ddewis hyd at 5 disgybl o flynyddoedd 7-9 a fydd yn derbyn yr hyfforddiant ar-lein: <https://bit.ly/2VXsvBS>

I gofrestru eich ysgol ar gyfer y cynllun dilynwch: <https://bit.ly/39tDTNQ>

***Newydd* Fideo Hyrwyddo Llwybrau at leithoedd Cymru:** Rhannwch y fideo a defnyddiwch ef yn eich gwersi! Dyma'r ddolen: <https://youtu.be/jwqrZ4Q8iU8>

Taflenni Gyrfaoedd Llwybrau at leithoedd Cymru: Rydym wedi ailwampio a diweddarau ein taflenni gyrfaoedd hynod boblogaidd. Gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan ac maent ar gael yn ddwyieithog: <https://bit.ly/3g7Vs7A>

Cylchlythyr ITM / leithoedd Rhyngwladol (Rhifyn 3)

[Sector Cynradd: dilynwch y ddolen hon](#)

[Sector Uwchradd: dilynwch y ddolen hon](#)

Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE.

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn: Archebwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

9 Chwefror

11 Mawrth

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwyliwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).



Allwch chi sbario deng munud i gwblhau arolwg byr am y ddarpariaeth les yn ysgolion GwE?

Mae GwE wrthi'n cydweithio â Phrifysgol Warwick i ymchwilio i'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol yn ysgolion Gogledd Cymru. Byddem yn ddiolchgar iawn cael cydweithrediad pob ysgol i'n helpu ni i gael darlun cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol yn y rhanbarth. Bwriadwn ddefnyddio'r canfyddiadau hyn fel sail dystiolaeth i wella'r cymorth a roddir gan GwE i wella llesiant disgyblion. Mae'r fenter bwysig hon wedi magu mwy o arwyddocâd wrth i ysgolion a disgyblion addasu i'r heriau oherwydd pandemig y coronafirws.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#).

I weld yr arolwg cliciwch [yma](#).

Adnoddau Dysgu Cyfunol

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | **Cymraeg** - [Gwybodaeth i ysgolion](#)

Mae tudalen wybodaeth i'ch Llywodraethwyr hefyd, cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [Governors Guidance](#) | **Cymraeg** - [Canllawiau Llywodraethwyr](#)

Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS, Headsprout, Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Trawsnewid ADY—Newyddlen

Dilynwch y [ddolen hon](#) i weld newyddlen ddiweddaraf Trawsnewid ADY.



Lle i Fyfyrio

Mae cyfle i Benaethiaid y rhanbarth wneud gwaith Un i Un efo Dr Coral Harper, neu Mike Armiger. Efallai y byddwch chi'n adnabod Coral o'i gwaith gydag Ysgolion sy'n Wybodus ynghylch Trawma, ac mae Mike wedi gweithio gydag ysgolion ledled y rhanbarth i gyflwyno'r 'Fframwaith Rheoleiddio'.

Dyma gyfle i chi drafod amryw byd o faterion yn gwbl gyfrinachol a heb gael eich beirniadu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â catrinmeirionowen@gwegogledd.cymru

Yna, byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion sesiwn gwybodaeth.

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell

Fyddech chi'n hoffi cael gwybod rhagor am ddamcaniaeth ac ymarfer cynllunio dysgu i gefnogi dysgu o bell? Yma mae tair rhestr chwarae ([Cliciwch yma](#)) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'u cynllunio gan CDSM Interactive Solutions Ltd. Maen nhw ar gael i bawb ar HWB, ac yn darparu rhaglen hyfforddi helaeth a chynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr sydd â diddordeb mewn dod yn arbenigwyr mewn cynllunio dysgu.

Bydd yr adnoddau'n ddefnyddiol wrth i chi gynllunio a chyflwyno dysgu o bell. Gwyddom pa mor brysur y mae pawb ar hyn o bryd wrth symud i addysgu ar-lein, felly mae'r fideo blasu byr hwn ([Cliciwch yma](#)) yn rhoi trosolwg o'r adnodd cyntaf, gan dynnu sylw at rai o'r agweddau mwyaf defnyddiol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfleoedd sydd wedi'u hariannu i ddyfnhau eich gwybodaeth am gynllunio dysgu trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn, yna cysylltwch â'ch Arweinydd Dysgu Proffesiynol rhanbarthol:

eurosdavies@gwegogledd.cymru



Awgrymiadau a gyfer cefnogi Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog

Dilynwch y [ddolen](#) i weld cyngor ar ystyried Lles a Chynnydd dysgwyr Mwy Abl a Thalentog mewn cyfnod heriol.

CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Erail

STEMpowered Learning

A ydych chi eisiau ffordd gyfleus i gael gwybod am adnoddau rhad ac am ddim a fydd yn gymorth wrth i chi gyflwyno gwyddoniaeth a thechnoleg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd?

Mae 'STEMpowered Learning' yn cydnabod cymorth GwE wrth gynhyrchu fersiwn Gymraeg y daenlen, 'Beth sy'n Digwydd'. Ar y daenlen, ceir crynodeb o adnoddau, grantiau a DPP i athrawon.

Cofrestrwch yma i gael y daenlen fisol am ddim <http://eepurl.com/dMy9VQ>



Mewn Cymeriad / In Character

Hoffem rannu newyddion am y nesaf yn y gyfres o ffilmiau byrion rydym wedi eu creu mewn partneriaeth â Cadw, i ddathlu dydd gŵyl Santes Dwynwen. Yn yr un modd â'n ffilm Nadoligaidd ac am y Fari Lwyd, mae hon ar gael i chi ei rhannu â'ch disgyblion wrth iddynt ddysgu o gartref, ac mae'n gyfle i ddysgu am stori nawdd sant cariadon Cymru.

Bydd y ffilm ar gael **cyn diwedd yr wythnos** ar wefan Cadw, sef <https://cadw.llyw.cymru/dysgu> tra bydd fersiynau Saesneg a BSL hefyd ar gael ar sianel YouTube Cadw, sydd ar gael [yma](#).



Rhifyn 18 Y Cliciadur yn fyw ar HWB!

Gellir defnyddio'r adnodd yma yn yr Ysgol neu ei osod fel tasgau annibynnol i'w gwneud gartref [Cliciwch yma](#).



post@gwegogledd.cymru

